Department for Culture Media & Sport

# Adolygiad o Siarter y BBC 2016

## Taflen wybodaeth - Llywodraethu

*Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisïau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.*

**Cefndir**

Ar hyn o bryd caiff y gwaith o lywodraethu - yn ogystal â rheoleiddio - y BBC ei gwblhau gan Ymddiriedolaeth y BBC. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol i systemau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC gan Syr David Clementi ym mis Mawrth 2016 a derbyniwyd yr argymhellion gan y llywodraeth. Bydd y Siarter newydd y sefydlu bwrdd unedol cryf i'r BBC, a fydd yn llwyr gyfrifol am lywodraethu'r BBC a darparu ei wasanaethau. Bydd y Siarter hefyd yn penodi Ofcom fel rheoleiddiwr allanol annibynnol y BBC.

**Polisi'r llywodraeth**

- Mae'r Siarter newydd yn rhannu'r cyfrifoldebau o lywodraethu a rheoleiddio'r BBC. Sefydlwyd Bwrdd newydd y BBC sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu'r BBC ac Ofcom a benodwyd fel rheoleiddiwr anibynnol, allanol.
- Bydd gan y BBC un bwrdd unedol a fydd yn gydgyfrifol am y BBC, sy'n llywodraeth er budd y cyhoedd, yn unol â'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus.
- Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am gyflawni cenhadaeth a'r dibenion cyhoeddus, ac mae ganddo ddyletswyddau penodol i weithredu'n annibynnol.
- Bydd y Bwrdd yn cynnwys 14 o Aelodau (yn cynnwys Cadeirydd).
- Bydd cymysgedd o benodiadau cyhoeddus a phenodiadau o'r BBC, gyda phob penodiad yn dilyn proses gadarn a thryloyw yn unol ag arferion gorau penodiadau cyhoeddus, a bydd y mwyafrif yn aelodau anweithredol. Mae hyn yn unol ag argymhellion Adolygiad Clementi a bydd yn helpu i sicrhau annibyniaeth y Bwrdd.
- Bydd y BBC yn penodi naw aelod o'r bwrdd (pum aelod anweithredol a phedwar aelod gweithredol). Bydd pump o'r penodiadau yn benodiadau cyhoeddus. Golyga hyn y bydd y BBC yn penodi'r mwyafrif o'r aelodau i'w Fwrdd newydd.
- Mae'n rhaid i bob Aelod o'r Bwrdd gynnal annibyniaeth y BBC.

**Penodiadau cyhoeddus** - Yn unol â chynigion Adolygiad Clementi, defnyddir proses Penodiadau Cyhoeddus, wedi'i llywio gan y llywodraeth, i benodi'r Cadeirydd, a phedwar aelod pellach, a nhw fydd aelodau'r Gwledydd dros yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae hyn yn llai na'r chwech a

argymhellwyd yn wreiddiol yn y Papur Gwyn, sy'n cynrychioli canlyniad trafodaethau adeiladol gyda'r BBC, ac yn unol ag argymhellion Pwyllgor Dethol y CMS, ac yn adlewyrchu ymrwymiad i sicrhau Bwrdd cwbl annibynnol y BBC.

**Penodiadau o'r BBC -** Caiff y naw aelod sy'n weddill eu penodi gan Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd, sy'n golygu y bydd gan y BBC ei hun y pŵer i benodi aelodau i'w fwrdd sofran. Mae'n rhaid i bump o'r rhain fod yn aelodau anweithredol ac mae'n rhaid i bedwar ohonynt fod yn aelodau gweithredol. Mae hyn yn mynd ymhellach na'r cynigion yn y Papur Gwyn i sicrhau annibyniaeth y BBC, gan wneud yn siwr y bydd y BBC yn penodi'r mwyafrif o'i aelodau i'w Fwrdd.

**Y Cadeirydd** - Fel y nodir yn y Papur Gwyn, ac yn unol ag argymhellion Adolygiad Clementi, proses Penodiadau Cyhoeddus, a arweinir gan y llywodraeth, a ddefnyddir i benodi'r Cadeirydd. Bydd yr ymgeisydd a nodir i'w benodi fel y Cadeirydd hefyd yn destun gwrandawiad cadarnhaol gerbron y Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn ei benodi, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac mae hyn wedi'i ymgorffori yn y Siarter newydd. Bydd y Cadeirydd yn ymwneud yn agos â phenodiadau eraill, gan gynnwys drafftio manylebau rôl. Er bod y Papur Gwyn wedi nodi cynlluniau i Gadeirydd presennol Ymddiriedolaeth y BBC barhau fel Cadeirydd Bwrdd y BBC, penderfynwyd, yn unol ag argymhelliad adroddiad Pwyllgor Dethol y CMS, y byddai cystadleuaeth agored a theg ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd newydd y BBC. Mae'n bwysig bod gan y cyhoedd a'r diwydiant hyder bod y Cadeirydd newydd wedi'i benodi/phenodi mewn ffordd dryloyw.

**Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol** - Mae'r llywodraeth wedi cytuno y caiff Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ei benodi o blith yr aelodau anweithredol yn hytrach nag Is-Gadeirydd fel y cynigiwyd yn y Papur Gwyn.

**Aelodau Gwledydd y Bwrdd** - Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, mae'r Siarter newydd yn gofyn bod gan aelodau anweithredol penodol o'r bwrdd unedol wybodaeth a dealltwriaeth o un o wledydd cyfansoddol y DU, er mwyn darparu mewnwelediad ond hefyd atebolrwydd. Bydd gan yr aelodau hyn rwymedigaeth bwysig i ymgysylltu â'r cyhoedd yn y gwledydd a deall eu hanghenion. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod hyn law yn llaw â'r cyfrifoldebau ehangach a osodwyd arnynt, ac mae'n rhaid iddynt arddangos y sgiliau ac arbenigeddau eraill i gael eu penodi i'r bwrdd. Bydd pob un o'r pedwar aelod o'r gwledydd yn aelodau anweithredol, wedi'u penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus.

**Y darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb**

*Siarter*

Mae **Erthygl 22** yn nodi'r gofynion a'r broses ar gyfer penodi Cadeirydd y Bwrdd - bydd hwn yn benodiad cyhoeddus, drwy gystadleuaeth deg ac agored, gan ddilyn y canllawiau arferol ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r BBC ar y broses, a bydd hefyd yn penodi 'Cadeirydd Dros Dro' o blith yr aelodau anweithredol, os na fydd Cadeirydd wedi'i benodi.

Mae **Erthygl 23** yn nodi'r gofyniad bod y Bwrdd yn cynnwys un aelod anweithredol ar gyfer pob un o wledydd cyfansoddiadol y DU, a fydd yn benodiad cyhoeddus, yn dilyn y gweithdrefnau arferol. Mae'n rhaid i'r aelodau hyn feddu ar wybodaeth am ddiwylliant, materion, a barn y wlad berthnasol, ond hefyd mae angen iddynt feddu ar y sgiliau angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau aelod anweithredol o'r Bwrdd, fel unrhyw aelod arall.

Mae **Erthygl 24** yn nodi'r gofynion ar gyfer penodi aelodau anweithredol eraill, y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu penodi, ar ôl i'r Pwyllgor Enwebiadau wneud cynigion. Wrth wneud y penodiadau hyn, mae'n rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Llywodraethu lle y bo'n briodol, sy'n nodi egwyddorion penodiadau cyhoeddus.

Mae **Erthygl 25** yn mandadu bod yn rhaid i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol weithredu fel aelod gweithredol o'r Bwrdd.

Mae **Erthygl 26** yn nodi'r gofynion ar gyfer penodi aelodau gweithredol o'r Bwrdd, y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu penodi, o'r cynigion gan y Pwyllgor Enwebiadau.

Mae **Erthygl 27** yn nodi'r telerau y mae'r aelodau anweithredol yn gwasanaethu ar y Bwrdd, nad yw am fwy na phedair blynedd heblaw bod amgylchiadau eithriadol lle gellir gwasanaethu am flwyddyn ychwanegol. Dim ond unwaith y gellir ail benodi aelod anweithredol presennol, ar unrhyw bwynt yn ystod eu cyfnod. Cânt gydnabyddiaeth ariannol gan y BBC, ond yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn pennu'r gyfradd, a fydd yn cynnwys unrhyw lwfansau - gan gynnwys cyfraniadau pensiwn - yn ôl yr hyn y cred yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn briodol.

Mae **Erthygl 28** yn nodi sut y caiff telerau aelodau anweithredol eu diddymu - fel arfer bydd hyn ar ddiwedd eu cyfnod gwasanaethu presennol, neu os byddant yn ymddiswyddo (mae'n rhai i benodiadau cyhoeddus wneud hyn yn ysgrifenedig at yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i aelodau anweithredol eraill wneud hynny i'r Bwrdd), neu os yw'r aelod yn colli cyfarfodydd Bwrdd yn barhaus am dri mis heb ganiatad, os ydynt yn anaddas a/neu'n anfodlon gwasanaethu, neu os bydd yn mynd i drafferthion ariannol difrifol.

Mae **Erthygl 29** yn nodi'r telerau y bydd aelodau gweithredol yn gwasanaethu ar y Bwrdd. Os caiff y telerau eu diddymu yn gynnar, mae'n rhaid i'r Cadeirydd gynnig hyn, a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Caiff cydnabyddiaeth yr aelodau gweithredol ei bennu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.